Ysgolion Awyr Agored Sir Benfro
Tasgau Cyfoethog

Ardal: **Coedwig** **Amcan Dysgu: Cyfrifo fesul 2 a 10**	**Grŵp Blwyddyn y CC:** Blynyddoedd 1 a 2

Maes Dysgu: Mathemateg/Rhifedd

<u>Rhaglen Astudio Mathemateg</u>

<u>Datblygu Ymresymu Rhifyddol</u>

Adnabod prosesau a chysylltiadau

- Trosglwyddo sgiliau mathemategol i weithgareddau chwarae a'r ystafell ddosbarth
- Adnabod camau i gwblhau'r dasg neu gyrraedd datrysiad
- Dewis mathemateg a thechnegau priodol i'w defnyddio
- Dewis a defnyddio ffeithiau rhif a strategaethau meddwl perthnasol.

Cynrychioli a chyfathrebu

- Defnyddio ieithwedd arferol ac ieithwedd fathemategol i siarad am eu syniadau a'u dewisiadau eu hunain
- Dylunio a mireinio dulliau anffurfiol, personol o gofnodi, gan symud tuag at ddefnyddio geiriau a symbolau mewn dilyniannau rhif.

Adolygu

- Dehongli atebion yng nghyd-destun y broblem ac ystyried a yw atebion yn synhwyrol.

<u>Defnyddio Sgiliau Rhif</u>

- Galw i gof dablau lluosi 2 a 10 a'u defnyddio. (B2)
- Dechrau cysylltu lluosi â rhannu syml e.e. grwpio a rhannu fesul 2 a 10. (B2)

Pennawd (Addas i Blant)

Gweithio mewn timau i gyfrif fesul 2 a 10 a dangos lluosrifau 2 a 10.

Meini Prawf Llwyddiant

- Cyfrifo fesul 2, 5 a 10 gyda'ch tîm i ymarfer
- Archwilio gwrthrychau yn eich cynefin a allai ddod fesul dau a deg (e.e. mae dail onnen yn tyfu dail mewn grwpiau o un ar ddeg ac mae modd tynnu'r un ar y pen; mae nodwyddau pinwydd yn tyfu mewn parau fel arfer; mae dail castanwydden yn tyfu fesul pump; gall brigau deubig, cnau cyll/mes mewn parau, hadau masarn, cynffonnau ŵyn bach gael eu haddasu). Defnyddiwch enw priodol y goeden/planhigyn wrth drafod y dail.
- Crëwch rai siapiau ar y ddaear (gan ddefnyddio brigau neu gerrig mân), sy'n ddigon mawr i gynnwys y deunyddiau ynddyn nhw.
- Gwrandewch ar gyfarwyddiadau fel y gallwch roi'r nifer cywir o wrthrychau mewn siâp.
- Adolygwch faint eich siapiau os bydd angen.

Beth i'w wneud:

- Dylai'r plant sefyll wrth linell gychwyn gyda'u deunyddiau, i ffwrdd rhag y siapiau, hyd nes bod yr athro yn gweiddi gorchymyn a bydd y plant yn rasio gyda'r nifer cywir o ddeunyddiau, at siâp.
- Pan fyddan nhw i gyd yno, gofynnwch i bob pâr ddisgrifio beth sydd ganddyn nhw a pham.

Cyfarwyddiadau:

- Mae angen 6 arna' i
- Mae angen 12 arna' i
- Mae angen 30 arna' i, ac ati.
- Cysylltwch luosi gyda rhannu trwy ofyn i ddisgyblion ddangos gwrthdro yn eu siapiau.

Ymestyn –

Gydag ychydig setiau o barau yn cymryd eu tro i gymryd rhan.

- Mae angen 12 mewn siâp 5 ochr arna' i.
- Mae angen 40 mewn siâp 4 ochr arna' i.

Her

- Cwblhau tasg o fewn amser penodol, i annog galw i gof yn gyflym.

Ymresymu
Dewiswch dechneg a mathemateg briodol i'w defnyddio.
Sut gwnaethoch chi ddod o hyd i'ch ateb?
Beth wnaethoch chi gyfrif ynddo?

Dewiswch a defnyddio ffeithiau rhif a strategaethau meddwl perthnasol.
Pa dablau lluosi rydych chi wedi'u defnyddio?
Pa ffeithiau rhif rydych chi wedi'u defnyddio?

Defnyddiwch strategaethau gwirio i benderfynu a yw atebion yn rhesymol.
A ydych chi'n hapus gyda'ch canlyniad?
Sut gallech chi brofi'ch bod chi'n gywir?
Pa ddulliau eraill gallech chi eu defnyddio?

Adnoddau:

- Deunyddiau naturiol sy'n tyfu fesul dau a deg
- Ipads/camera
- Chwiban.